

## DAVIES, SOROBABEL (1806 - 1877), ysgolfeistr a phregethwr gyda'r Bedyddwyr

**Enw:** Sorobabel Davies

**Dyddiad geni:** 1806

**Dyddiad marw:** 1877

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** ysgolfeistr a phregethwr gyda'r Bedyddwyr

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg

**Awdur:** Thomas Richards

Ganwyd yn Llety Shôn ger Llandeilo; myned i athrofa Bryste, a chael ei ordeinio yn Llandyfaen (1825), dod yn weinidog yn Llandeilo (1825-7) a Bwlch-y-gwynt (1836-9). Cyn hyn yr oedd wedi dechrau cadw ysgol, yn enwedig yn Abergwaun (1833), lle y bu o fawr wasanaeth i'r achos pan ballodd llais a pharabl James Richards y gweinidog. Cadw ysgol a phregethu 'n cyd-redeg; bu'n cadw ysgol yn Llandeilo, Cross Inn, Llanelli, Talacharn, a St Clears (dau ysbaid). Yn St Clears yr ydoedd pan ddaeth swyddog y Dirprwywr Addysg heibio yn 1846, a llythyr oddi wrth Sorobabel yw un o'r pethau mwyaf diddorol yn y *Llyfrau Gleision* enwog (1847). Rhydd fras linelliad o'i yrfa ei hun, y dull o gasglu ysgol at ei gilydd, y llyfrau a ddygid gan y plant i'r ysgol; sonia am dlodi dygn y werin bobl, ac am eu parodrwydd i roddi addysg i'w plant pe bai'r moddion ganddynt. Mewn hen gapel i'r Undodiaid y cedwid yr ysgol, gyda llawr pridd iddo; ond argraff dda iawn a wnaeth Sorobabel á'i ddull tawel hamddenol ar swyddog y comisiwn, a cheir geiriau mawrhaol am y drefn a'r reolaeth dda. Yn 1853 ymfudodd i Awstralia; cafodd le fel meistr ysgol o dan y Llywodraeth; daliai i bregethu, ac nid oes sicrwydd pa un ai ef ai [W. M. Evans](#), y pregethwr Methodus, a bregethodd y bregeth Gymraeg gyntaf yn Awstralia. Gyda hynny daeth yn berchennog newyddiadur, y *Pleasant Creek News* (dyma enw'r fangre y sefydlodd ynddi, 150 milltir o Melbourne), a throdd yr antur o fentro arian yn y gweithfeydd aur yn dra lwcus iddo fel y bu farw mewn amgylchiadau cysurus yn nechrau Mai 1877.

### Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

### Ffynonellau

D. Jones, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778), 204, 351, 504  
*Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr*, 1916, 153

*Reports of the commissioners of inquiry into the state of education in Wales, appointed by the Committee of council on education, in pursuance of proceedings in the House of commons, on the motion of Mr. Williams, of March 10, 1846, for an address to the Queen, praying Her Majesty to direct an inquiry to be made into the state of education in the principality of Wales, and especially into the means afforded to the labouring classes of acquiring a knowledge of the English language* (Llundain 1847), 1847, i, 244-5

*Seren Cymru*, 27 Gorffennaf 1877

gwybodaeth gan y Parch. W. J. Rhys

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734405](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.